  - 4.9.4 ceases to be a member, but such a person may be reinstated by resolution passed by all the other Trustees on resuming membership of the Trust before the next Annual General Meeting
  - 4.9.5 resigns by written notice to the Trustees but only if at least three Trustees will remain in office
  - 4.9.6 is removed by resolution passed by at least two thirds of the members present and voting at a general meeting after the meeting has invited the views of the Trustee concerned and considered the matter in the light of any such views. A person so removed from office will cease to be a member of the Trust



4.10 Subject to clause 4.6, the Trustees may at any time co-opt any person duly qualified to be appointed as a Trustee to fill a vacancy in their number or as an additional Trustee, but a co-opted Trustee holds office only until the next Annual General Meeting

4.11 A technical defect in the appointment of a Trustee of which the Trustees are unaware at the time does not invalidate decisions taken at a meeting

## **5. PROCEEDINGS OF TRUSTEES**

5.1 The Trustees must hold at least three meetings each year

5.2 The quorum at a meeting of the Trustees may be fixed by the Trustees but shall not be less than one third of their number or three Trustees whichever is the greater

5.3 A meeting of the Trustees may held either in person or by suitable electronic means agreed by the Trustees in which all participants may communicate with all the other participants

5.4 The Chair or (if the Chair is unable or unwilling to do so) some other Trustee chosen by the Trustees present presides at each meeting

5.5 Every issue may be determined by a simple majority of the votes cast at a meeting but a written resolution signed by all the Trustees is as valid as a resolution passed at a meeting (and for this purpose the resolution may be contained in more than one document and will be treated as passed on the date of the last signature)

5.6 Except for the chair of the meeting who has a second or casting vote, every Trustee has one vote on each issue

5.7 A procedural defect of which the Trustees are unaware at the time does not invalidate decisions taken at a meeting

## **6. POWERS OF TRUSTEES**

The Trustees have the following powers in the administration of the Trust:

- 6.1 to appoint (and remove) any person (who may be a Trustee) to act as Secretary to the Trust in accordance with the Act
- 6.2 to appoint a Chair Treasurer and other honorary officers from among their number
- 6.3 subject to the provisions of clause 6.5 to delegate any of their functions to committees consisting of two or more individuals appointed by them but at least two members of every committee must be a Trustee and all proceedings of committees must be reported promptly to the Trustees
- 6.4 to make Rules consistent with the Memorandum, these Articles and the Act to govern proceedings at general meetings
- 6.5 to make Rules consistent with the Memorandum, these Articles and the Act to govern proceedings at their meetings and at meetings of committees
- 6.6 to make Rules consistent with the Memorandum, these Articles and the Act to govern the administration of the Trust and the use of its seal (if any)
- 6.7 to establish procedures to assist the resolution of disputes within the Trust
- 6.8 to exercise any powers of the Trust which are not reserved to a general meeting

## **7. RECORDS AND ACCOUNTS**

- 7.1 The Trustees must comply with the requirements of the Act and of the Charities Act 1993 as to keeping financial records, the audit of accounts and the preparation and transmission to the Register of Companies and the Commission of :
  - 7.1.1 annual reports
  - 7.1.2 annual returns
  - 7.1.3 annual statements of account
- 7.2 The Trustees must keep proper records of

- 7.2.1 all proceedings at general meetings
  - 7.2.2 all proceedings at meetings of the Trustees
  - 7.2.3 all reports of committees
  - 7.2.4 all professional advice obtained
- 7.3 Accounting records relating to the Trust must be made available for inspection by any Trustee at any reasonable time during normal office hours and may be made available for inspection by members who are not Trustees if the Trustees so decide
- 7.4 A copy of the Trust's latest available statement of account must be supplied on request to any Trustee or member, or to any other person who makes a written request and pays the Trust's reasonable costs, within two months

## **8. NOTICE**

- 8.1 Notices under these Articles may be sent by hand, or by post or by suitable electronic means or (where applicable to members generally) may be published in any suitable journal or newspaper or any newsletter distributed by the Trust
- 8.2 The only address at which a member is entitled to receive notices is the address shown in the register of members
- 8.3 Any notice given in accordance with these Articles is to be treated for all purposes as having been received
- 8.3.1 24 hours after being sent by electronic means or delivered by hand to the relevant address
  - 8.3.2 two clear days after being sent by first class post to that address
  - 8.3.3 three clear days after being sent by second class or overseas post to that address

- 8.3.4 on the date of publication of a newspaper journal or newsletter containing the notice
  - 8.3.5 on being handed to the member or, in the case of a member organisation, its authorised representative personally or, if earlier,
  - 8.3.6 as soon as the member acknowledges actual receipt
- 8.4 A technical defect in the giving of notice of which the Trustees are unaware at the time does not invalidate decisions taken at a meeting

## **9. INDEMNITY**

Subject to the provisions of the Act every Trustee or other officer or auditor of the Trust shall be indemnified out of the assets of the Trust against any liability incurred by him or her in that capacity in defending any proceedings, whether civil or criminal, in which judgement is given in his or her favour or in which he or she is acquitted or in connection with any application in which relief is granted to him or her by the court from liability for negligence, default, breach of duty or breach of trust in relation to the affairs of the Trust.

## **10. DISSOLUTION**

The provisions of the Memorandum relating to dissolution of the Trust take effect as though repeated here

## **11. INTERPRETATION**

In the Memorandum and in these Articles:

- 11.1 “The Act” means the Companies Act 1985
- “these Articles” means these Articles of Association
- “authorised representative” means an individual who is authorised by a member organisation to act on its behalf at meetings of the Trust and whose name is given to the secretary
- “Chair” means the chair of the Trustees
- “the Trust” means the company governed in these articles
- “charity trustee” has the meaning prescribed by section 97 (1) of the Charities Act 1993

“clear day” means 24 hours from midnight following the relevant event

“the Commission” means the Charity Commissioners for England and Wales

“financial expert” means a company or firm who is an authorised person or an exempted person within the meaning of the Financial Services Act 1986

“material benefit” means a benefit which may not be financial but has a monetary value

“member” and “membership” refer to membership of the Trust

“Memorandum” means the Trust’s Memorandum of Association

“month” means calendar month

“the Objects” means the Objects of the Trust as defined in clause 3 of the Memorandum

“Secretary” means the Secretary of the Trust

“taxable trading” means carrying on a trade or business on a continuing basis for the principal purpose of raising funds and not for the purpose of actually carrying out the Objects

“Trustee” means a director of the Trust and “Trustees” means all of the directors

“written” or “in writing” refers to a legible document on paper including a fax message

“year” means calendar year

11.2 Expressions defined in the Act have the same meaning

11.3 References to an Act of Parliament are to the Act as amended or re-enacted from time to time and to any subordinate legislation made under it

11.4 In any matter of interpretation of these Articles the English language version shall prevail over the Welsh language version

---

NAMES AND ADDRESSES OF SUBSCRIBERS

SIGNATURES OF SUBSCRIBERS

---

---

Date:

Witness to the above signatures

Name:

Address:

Occupation:

---

# **DEDDFAU CWMNIAU 1985 A 1989**

## **CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT**

### **A HEB GYFALAF CYFRANDDALIADAU**

#### **ERTHYGLAU CYMDEITHASIAID**

#### **YMDDIRIEDOLAETH ADDOLDAI CYMRU**

#### **WELSH RELIGIOUS BUILDINGS TRUST**

### **1. CYFFREDINOL**

Sefydlir y cwmni at y dibenion a fynegwyd yn y Memorandwm Cymdeithasiad

### **2. AELODAETH**

2.1 Ni fydd nifer yr aelodau y bwriada'r Ymddiriedolaeth eu cofrestru yn ddim llai na thri ac yn ddim mwy nag un ar ddeg ond caiff Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, o bryd i'w gilydd, gofrestru cynnydd yn nifer yr aelodau

2.2 Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gadw cofrestr aelodau

2.3 Bydd y tanysgrifwyr i'r Memorandwm Cymdeithasiad ac unrhyw bobl neu fudiadau eraill, y bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn eu derbyn yn aelodau yn unol â'r Erthyglau, yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth

2.4 Bydd aelodau'r Ymddiriedolaeth yn unigolion neu'n fudiadau a chanddynt ddiddordeb mewn hybu'r Amcanion, ac sydd

- 2.4.1 wedi eu gwahodd a'u cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr
  - 2.4.2 yn cyflwyno cais i'r Ymddiriedolaeth ar y ffurf sy'n ofynnol gan yr Ymddiriedolwyr
  - 2.4.3 yn llofnodi'r gofrestr aelodau neu'n cydsynio'n ysgrifenedig i ddod yn aelod naill ai'n bersonol neu, yn achos aelod-fudiad, trwy gynrychiolydd a awdurdodwyd
- 2.5 Caiff yr Ymddiriedolwyr sefydlu gwahanol ddsbarthiadau o aelodaeth a darnodi eu breintiau a'u dyletswyddau priodol a phennu maint unrhyw danysgrifiadau, os oes rhai
- 2.6 Diddymir aelodaeth os yw'r aelod dan sylw
- 2.6.1 yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o'i h/ymddiswyddiad i'r Ymddiriedolaeth
  - 2.6.2 yn marw neu, yn achos mudiad, yn darfod â bod
  - 2.6.3 mewn chwe mis o ôl ddyled o ran talu'r tanysgrifiad perthnasol (os oes tanysgrifiad) ond, dan amgylchiadau o'r fath, mae'n bosib adfer aelodaeth yr aelod pan fo'n talu'r swm sy'n ddyledus
- neu
- 2.6.4 yn colli ei h/aelodaeth trwy benderfyniad yr Ymddiriedolwyr ar y sail y byddai i'r aelod barhau ei h/aelodaeth, yn eu barn resymol hwy, yn niweidiol i'r Ymddiriedolaeth (ond dim ond ar ôl hysbysu'r aelod yn ysgrifenedig ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw ddadleuon ysgrifenedig a rydd yr aelod ger bron cyn pen 14 diwrnod clir ar ôl derbyn y rhybudd)
- 2.7 Nid yw'n bosib trosglwyddo aelodaeth o'r Ymddiriedolaeth

### **3. CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

- 3.1 Mae hawl gan aelodau fynychu cyfarfodydd cyffredinol naill ai'n bersonol



neu, yn achos aelod-fudiad, trwy gynrychiolydd awdurdodedig. Gelwir cyfarfodydd cyffredinol gydag o leiaf 21 diwrnod clir o rybudd ysgrifenedig gan nodi'r materion i'w trafod

- 3.2 Mae cworwm mewn cyfarfod cyffredinol os yw nifer yr aelodau sydd â phleidlais, neu'r cynrychiolwyr awdurdodedig sydd â phleidlais ac sy'n bresennol yn bersonol, yn dri neu'n draean o'r aelodau sydd â phleidlais, pa un bynnag yw'r mwyaf
- 3.3 Y Cadeirydd neu (os yw'r Cadeirydd yn analluog neu'n anfodlon gwneud hynny) aelod arall a etholir gan y rhai sy'n bresennol, sy'n llywyddu mewn cyfarfod cyffredinol
- 3.4 Ac eithrio lle mae'r Ddeddf yn darparu fel arall, penderfynir ynghylch pob mater yn ôl mwyafrif pleidleisiau
- 3.5 Ac eithrio cadeirydd y cyfarfod, sy'n meddu ar ail bleidlais neu bleidlais fwrw, mae pob aelod sydd â phleidlais sy'n bresennol yn bersonol, neu trwy gynrychiolydd awdurdodedig, yn meddu ar un bleidlais yng nghyswllt pob mater
- 3.6 Mae penderfyniad ysgrifenedig a lofnodir gan bawb a chanddynt yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol yr un mor ddilys â phenderfyniad a gaiff ei basio mewn cyfarfod cyffredinol (ac, i'r diben hwn, mae'n bosib y nodir y penderfyniad mewn mwy nag un ddogfen ac ystyrir ei fod wedi'i basio ar ddyddiad y llofnod olaf)
- 3.7 Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol bob blwyddyn a bydd hawl gan bob aelod sy'n pleidleisio i fynychu'r cyfarfod hwnnw. Gellir cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol cyntaf cyn pen 18 mis ar ôl corffori'r Ymddiriedolaeth.
- 3.8 Mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, mae'r aelodau:
  - 3.8.1 yn derbyn cyfrifon yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol

- 3.8.2 yn derbyn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol
- 3.8.3 yn derbyn ymddeoliad yr Ymddiriedolwyr hynny sy'n dymuno ymddeol neu sy'n ymddeol ar sail cylchdro
- 3.8.4 yn ethol pobl i fod yn Ymddiriedolwyr i lenwi'r swyddi gwag sy'n codi
- 3.8.5 yn penodi archwilwyr i'r Ymddiriedolaeth
- 3.8.6 yn gallu cyflwyno i unigolyn (gyda'i ch/gydsyniad) y teitl anrhydeddus o Noddwr Llywydd neu Is-Lywydd yr Ymddiriedolaeth neu unrhyw deitl anrhydeddus o'r fath y gallai'r Ymddiriedolwyr benderfynu arno o bryd i'w gilydd
- 3.8.7 yn trafod ac yn penderfynu ynghylch materion polisi neu'n ymdrin ag unrhyw fusnes arall a roddir ger bron
- 3.9 Mae unrhyw gyfarfod cyffredinol nad yw'n Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Gyfarfod Cyffredinol Arbennig
- 3.10 Caiff Bwrdd yr Ymddiriedolwyr alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar unrhyw adeg ac mae'n rhaid galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig cyn pen 28 diwrnod yn dilyn cais ysgrifenedig gan o leiaf dri neu draean o'r aelodau sydd â phleidlais os yw hynny'n fwy,

#### **4. YMDDIRIEDOLWYR**

- 4.1 Fel ymddiriedolwyr elusennol, mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth reolaeth dros yr Ymddiriedolaeth a'i heiddo a'i harian
- 4.2 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, yn cynnwys o leiaf tri a dim mwy na phymtheg unigolyn, a rhaid i bob un o'r rhai hynny fod yn aelodau
- 4.3 Y rhai sy'n tanysgrifio i'r Memorandwm yw Ymddiriedolwyr cyntaf yr Ymddiriedolaeth

- 4.4 Rhaid i bob Ymddiriedolwr lofnodi datganiad o barodrwydd i weithredu fel ymddiriedolwr elusennol i'r Ymddiriedolaeth cyn y rhoddir yr hawl iddo / iddi bleidleisio yn unrhyw un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr
- 4.5 Yn y trydydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w gynnal ym mhob blwyddyn ddilynol, rhaid i draean (neu'r nifer sydd agosaf at draean) o aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ymddeol o'u swyddi, gyda'r rhai sydd wedi gwasanaethau hwyaf ers eu penodi neu'u hailbenodi ddiwethaf yn ymddeol yn gyntaf a'r dewis rhwng unrhyw rai a chanddynt yr un hyd o wasanaeth yn cael ei benderfynu trwy ddewis ar hap oni bai eu bod, fel arall, yn cytuno ymysg ei gilydd
- 4.6 Mae aelod sy'n ymddeol o fod ar Fwrdd yr Ymddiriedolwr yn gymwys i'w ail-h/ethol am un cyfnod ychwanegol olynol yn y swydd. Ceir ail-ethol neu gyfethol aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n ymddeol ar ôl yr ail gyfnod yn olynol yn y swydd i fod yn Ymddiriedolwr drachefn cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf ar ôl y cyfryw ymddeoliad
- 4.7 Wrth ymddeol, mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn peidio â bod yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth (oni chânt eu hail-ethol) a rhaid dileu eu henwau o'r gofrestr aelodaeth ar ddiwedd y Cyfarfod Cyffredinol pan fônt yn ymddeol (oni bai eu bod hefyd yn aelod o'r Ymddiriedolaeth drwy rinwedd cymal 2.4)
- 4.8 Caiff yr Ymddiriedolaeth, o bryd i'w gilydd, trwy benderfyniad cyffredin, gynyddu neu ostwng y nifer sy'n gwasanaethu ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a chaiff hefyd benderfynu ar ba batrwm y bydd y nifer lai neu fwy yn gadael eu swyddi, a phryd y bydd Ymddiriedolwr yn gymwys i'w h/ail-ethol neu i'w ch/gyfethol
- 4.9 Bydd tymor gwasanaethu Ymddiriedolwr yn dod i ben yn awtomatig os yw ef neu hi:
- 4.9.1 yn cael ei g/wahardd dan Ddeddf Elusennau 1993 rhag gweithredu fel ymddiriedolwr elusennol

- 4.9.2 yn analluog, boed hynny'n feddyliol ynteu'n gorfforol, o gadw rheolaeth ar ei busnes neu fusnes ei hun
- 4.9.3 yn absennol o dri cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yn olynol, a bod yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu y dylai adael y swydd
- 4.9.4 yn peidio â bod yn aelod, ond mae modd adfer person o'r fath i'w swydd trwy benderfyniad gan yr holl Ymddiriedolwyr eraill ar adeg ailymuno fel aelod o'r Ymddiriedolaeth cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf
- 4.9.5 yn ymddiswyddo trwy rybudd ysgrifenedig i'r Ymddiriedolwyr ond dim ond os bydd o leiaf tri Ymddiriedolwr arall yn parhau i wasanaethu
- 4.9.6 yn cael ei ddiswyddo trwy benderfyniad o leiaf dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol a thrwy bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol ar ôl i'r cyfarfod wahodd barn yr Ymddiriedolwr dan sylw ac ystyried y mater yng ngoleuni sylwadau o'r fath. Ni fydd person sydd wedi'i ddiswyddo yn y modd hwn yn parhau i fod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth
- 4.10 Yn ddarostyngedig i gymal 4.6, caiff yr Ymddiriedolwyr ar unrhyw adeg gyfethol person sy'n briodol gymwys i'w ph/benodi'n Ymddiriedolwr i lenwi swydd wag sy'n eu gwneud yn brin o ran nifer neu i fod yn Ymddiriedolwr ychwanegol, ond dim ond tan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf y bydd Ymddiriedolwr cyfetholedig yn parhau yn ei swydd
- 4.11 Nid yw ffaeledd technegol nad yw'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol ohono ar y pryd, adeg penodi Ymddiriedolwr, yn annilysu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod

## **5. CYFARFODYDD YR YMDDIRIEDOLWYR**

- 5.1 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gynnal o leiaf tri chyfarfod mewn blwyddyn
- 5.2 Caiff yr Ymddiriedolwyr bennu'r cworwm ar gyfer cyfarfod o'r

Ymddiriedolwyr ond rhaid i hynny beidio â bod yn llai na thraean o'r nifer llawn neu dri Ymddiriedolwr, pa un bynnag yw'r mwyaf

- 5.3 Gellir cynnal cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr naill ai yn bersonol neu trwy gyfrwng electronig addas i'w gytuno gan yr Ymddiriedolwyr ac sy'n fodd i bawb sy'n cymryd rhan gyfathrebu gyda'i gilydd
- 5.4 Y Cadeirydd, neu (os nad yw'r Cadeirydd yn alluog neu os yw'n amharod i wneud hynny) Ymddiriedolwr arall a ddewisir gan yr Ymddiriedolwyr sy'n bresennol, sydd i lywyddu ym mhob cyfarfod
- 5.5 Caniateir penderfynu ynghylch bob mater trwy gyfrwng mwyafrif syml o bleidleisiau mewn cyfarfod ond mae penderfyniad ysgrifenedig sydd wedi'i lofnodi gan yr holl Ymddiriedolwyr yr un mor ddilys â phenderfyniadau a basiwyd mewn cyfarfod (ac at y diben hwn, mae'n bosib cynnwys y penderfyniad mewn mwy nag un ddogfen ac ystyrir ei fod wedi'i basio ar ddyddiad y llofnod olaf)
- 5.6 Ac eithrio cadeirydd y cyfarfod sy'n meddu ar ail bleidlais neu bleidlais fwrw, un bleidlais sydd gan bob Ymddiriedolwr yng nghyswllt pob mater
- 5.7 Nid yw ffaeledd yn y gweithdrefnau, nad yw'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol ohono ar y pryd, yn annylisu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod

## **6. PWERAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn meddu ar y pwerau canlynol o ran gweinyddu'r Ymddiriedolaeth:

- 6.1 penodi (a diswyddo) unrhyw berson (a allai fod yn Ymddiriedolwr) i weithredu fel Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolaeth yn unol â'r Ddeddf
- 6.2 penodi Cadeirydd, Trysorydd a swyddogion mygedol eraill o'u plith
- 6.3 yn ddarostyngedig i ofynion cymal 6.5 i ddirprwyo unrhyw swyddogaethau o'u heiddo i bwyllgorau lle mae dau neu ragor o unigolion wedi'u penodi ganddynt ond rhaid i ddau aelod, o leiaf, o bob pwyllgor fod yn

Ymddiriedolwyr a rhaid cyflwyno adroddiad prydlon o drafodion y pwyllgorau i'r Ymddiriedolwyr

- 6.4 llunio Rheolau yn unol â'r Memorandwm, yr Erthyglau hyn a'r Ddeddf i lywodraethu'r gweithgareddau mewn cyfarfodydd cyffredinol
- 6.5 llunio Rheolau yn unol â'r Memorandwm, yr Erthyglau hyn a'r Ddeddf i lywodraethu'r gweithgareddau yn eu cyfarfodydd nhw ac yng Nghyfarfodydd y pwyllgorau
- 6.6 llunio Rheolau yn unol â'r Memorandwm, yr Erthyglau hyn a'r Ddeddf i lywodraethu gweinyddiad yr Ymddiriedolaeth a'r defnydd a wneir o'i sêl (os oes un)
- 6.7 sefydlu gweithdrefnau i gynorthwyo'r gwaith o ddatrys anghydfod oddi mewn i'r Ymddiriedolaeth
- 6.8 gweithredu unrhyw bwerau o eiddo'r Ymddiriedolaeth nad ydynt wedi'u cyfyngu i gyfarfod cyffredinol

## **7. COFNODION A CHYFRIFON**

- 7.1 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ynghyd â gofynion Deddf Elusennau 1993 o safbwynt cadw cofnodion ariannol, archwilio cyfrifon a'r gwaith o baratoi a throsglwyddo'r canlynol i Gofrestr y Cwmnïau a'r Comisiwn:
  - 7.1.1 adroddiadau blynyddol
  - 7.1.2 datganiadau blynyddol
  - 7.1.3 cyfriflenni blynyddol
- 7.2 Rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cofnodion cywir o
  - 7.2.1 holl drafodion y cyfarfodydd cyffredinol
  - 7.2.2 holl drafodion cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

- 7.2.3 holl adroddiadau'r pwyllgorau
- 7.2.4 yr holl gyngor proffesiynol a gafwyd
- 7.3 Rhaid i gofnodion cyfrifo sy'n ymwneud â'r Ymddiriedolaeth fod ar gael i'w harchwilio gan unrhyw Ymddiriedolwr ar unrhyw adeg resymol yn ystod oriau gwaith arferol ac mae'n bosib iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan aelodau nad ydynt yn Ymddiriedolwyr os mai dyna yw penderfyniad yr Ymddiriedolwyr
- 7.4 Rhaid rhoi copi o gyfriflen ddiweddaraf yr Ymddiriedolaeth ar gais i unrhyw Ymddiriedolwr neu aelod, neu i unrhyw berson arall sy'n gwneud cais ysgrifenedig ac yn talu costau rhesymol yr Ymddiriedolaeth, cyn pen deufis

## **8. RHYBUDD**

- 8.1 Caniateir anfon rhybuddion dan yr Erthyglau hyn trwy law, neu trwy'r post neu trwy gyfrwng electronig addas, neu (lle bo hynny'n berthnasol i'r aelodau yn gyffredinol) gellir eu cyhoeddi mewn unrhyw gylchgrawn neu bapur newydd addas neu unrhyw gylchlythyr a ddosberthir gan yr Ymddiriedolaeth
- 8.2 Dim ond yn y cyfeiriad sy'n ymddangos yng nghofrestr yr aelodau y mae gan aelod yr hawl i dderbyn rhybuddion
- 8.3 Dylid ystyried, i bob diben, bod unrhyw rybudd a gyhoeddir yn unol â'r Erthyglau hyn wedi'i dderbyn
  - 8.3.1 24 awr ar ôl ei anfon trwy gyfrwng electronig neu ar ôl ei ddanfôn â llaw i'r cyfeiriad perthnasol
  - 8.3.2 dau ddiwrnod clir ar ôl ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf i'r cyfeiriad hwnnw
  - 8.3.3 tri diwrnod clir ar ôl ei anfon gyda phost ail ddosbarth neu bost tramor i'r cyfeiriad hwnnw

- 8.3.4 ar ddyddiad cyhoeddi papur newydd, cylchgrawn neu gylchlythyr sy'n cynnwys y rhybudd
  - 8.3.5 wrth ei roi i aelod neu, yn achos aelod-fudiad, ei gynrychiolydd awdurdodedig yn bersonol neu, os yn gynharach,
  - 8.3.6 cyn gynted ag y bydd yr aelod yn cydnabod ei dderbyn
- 8.4 Nid yw ffaeidd technegol wrth gyflwyno'r rhybudd, nad yw'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol ohono ar y pryd, yn annilysu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod

## **9. INDEMNIAID**

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf, bydd pob Ymddiriedolwr neu archwiliwr neu swyddog arall o'r Ymddiriedolaeth yn cael ei indemnio o asedion yr Ymddiriedolaeth yn erbyn unrhyw gostau a ddaw i'w rh/ran yn rhinwedd y swydd honno wrth amddiffyn unrhyw achos, boed yn achos sifil neu'n achos troseddol, os yw'r dyfarniad o'i ph/blaid neu os caiff ei rh/ryddfarnu neu yng nghyswllt unrhyw gais lle caiff ef neu hi ryddhad gan y llys rhag bod yn gyfrifol am esgeulustod, diffyg, tor-ddyletswydd neu dor-ymddiriedaeth yng nghyswllt busnes yr Ymddiriedolaeth.

## **10. DIDDYMIAD**

Yr un grym sydd i ddarpariaethau'r Memorandwm o safbwynt diddymu'r Ymddiriedolaeth â phe baent wedi'u hailadrodd yma

## **11. DEHONGLIAD**

Yn y Memorandwm ac yn yr Erthyglau hyn:

### **11.1 Mae'r "Ddeddf" yn golygu Deddf Cwmnïau 1985**

Mae "yr Erthyglau hyn" yn golygu yr Erthyglau Cymdeithasiad hyn

Mae "cynrychiolydd awdurdodedig" yn golygu unigolyn sydd wedi'i

awdurdodi gan aelod-fudiad i weithredu ar ei ran mewn cyfarfodydd o'r

Ymddiriedolaeth ac y rhoddir ei enw i'r ysgrifennydd

Mae "Cadeirydd" yn golygu cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Mae "yr Ymddiriedolaeth" yn golygu'r cwmni a lywodraethir yn yr erthyglau



hyn

mae i “ymddiriedolwr elusennol” yr ystyr a bennwyd yn adran 97 (1) o Ddeddf Elusennau 1993

Mae “diwrnod clir” yn golygu 24 awr o hanner nos yn dilyn y digwyddiad perthnasol

Mae “y Comisiwn” yn golygu Comisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr

Mae “arbenigwr ariannol” yn golygu cwmni neu ffyrm sy’n berson awdurdodedig neu’n berson eithriedig yn ôl ystyr Deddf Gwasanaethau Ariannol 1986

Mae “budd materol” yn golygu budd nad yw, o bosib, yn ariannol ond bod iddo werth ariannol

Cyfeiria “aelod” ac “aelodaeth” at aelodaeth o’r Ymddiriedolaeth

Mae “Memorandwm” yn golygu Memorandwm Cymdeithasiad yr Ymddiriedolaeth

Mae “mis” yn golygu un mis calendr

Mae’r “Amcanion” yn golygu Amcanion yr Ymddiriedolaeth fel y’u diffinnir yng nghymal 3 y Memorandwm

Mae “Ysgrifennydd” yn golygu Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth

Mae “masnachu trethadwy” yn golygu cynnal masnach neu fusnes ar sail barhaol gyda’r prif ddiben o godi arian ac nid er mwyn gweithredu’r Amcanion

Mae “Ymddiriedolwr” yn golygu un o gyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth ac mae “Ymddiriedolwyr” yn golygu’r holl gyfarwyddwyr

Mae “ysgrifenedig” neu “yn ysgrifenedig” yn golygu dogfen ddarllenadwy ar bapur gan gynnwys neges ffacs

Mae “blwyddyn” yn golygu blwyddyn galendr

11.2 Mae’r ymadroddion a ddiffinnir yn y Ddeddf yn dwyn yr un ystyr

11.3 Mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol yn cyfeirio at y Ddeddf fel y’i diwygiwyd neu’i hail-ddeddfwyd o bryd i’w gilydd ac at unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed yn ei sgîl

11.4 Mewn unrhyw fater yn ymwneud â dehongli’r Erthyglau hyn mae gan y fersiwn Saesneg oruchafiaeth dros y fersiwn Gymraeg



---

Dyddiad:

Yn dyst i'r llofnodion uchod:

Enw:

Cyfeiriad:

Galwediagaeth:

---